OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2651 (Cy.219)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sy'n Addas i Bobl ag Anoddefiad tuag at Glwten (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Hydref 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Tachwedd 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn wrth arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(e), 17(2), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, ac yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sy'n Addas i Bobl ag Anoddefiad tuag at Glwten (Cymru) 2010, a deuant i rym ar 1 Ionawr 2012.

(**1**) 1990 p.16; amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999, O.S 2004/2990 ac O.S. 2004/3279.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau oedd gynt yn arferadwy gan "*the Ministers*" (sef, mewn perthynas â Chymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog dros Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol sydd â chyfrifoldeb yn eu tro dros iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru, ac, mewn perthynas â'r Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol), i'r graddau maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, ac a drosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr y mae "*food authority*" yn ei ddwyn yn rhinwedd adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr "darpariaeth benodedig" ("*specified provision*") yw unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliad y Comisiwn sydd wedi'i phennu yng Ngholofn 1 o'r Atodlen ac y mae pwnc y ddarpariaeth honno wedi'i ddisgrifio yng Ngholofn 2 o'r Atodlen;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990; ac

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 41/2009 sy'n ymwneud â chyfansoddiad a labelu deunyddiau bwyd sy'n addas i bobl ag anoddefiad tuag at glwten (**4**).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac eithrio un a ddiffinnir ym mharagraff (1), ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau hyn ac yn y Ddeddf yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn y Ddeddf.

(3) Mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad y Comisiwn yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn Rheoliad y Comisiwn.

(4) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf yn cael eu neilltuo—

(a) drwy orchymyn o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**5**) i awdurdod iechyd porthladd; neu

(b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(**6**), i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig;

rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y neilltuoliwyd hwy iddo.

### Tramgwyddau, cosbau a gweithredu a gorfodi

**3.**—(1) Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth benodedig yn euog o dramgwydd.

(2) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan baragraff (1) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(3) Rhaid i bob awdurdod bwyd weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

### Cymhwyso'r darpariaethau penodedig

**4.** At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'r darpariaethau penodedig yn gymwys i ddeunyddiau bwyd i bobl ag anoddefiad tuag at glwten a osodir ar y farchnad fanwerthu p'un ai a fyddant wedi'u pecynnu'n barod ai peidio.

(**4**) OJ Rhif L16, 21.1.2009, t.3.

(**5**) 1984 p.22.

(**6**) 1936 p.49; mae adran 6 i'w darllen gyda pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

**Cymhwyso amryfal adrannau o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990**

**5.** Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

(a) adran 3 (rhagdybiaethau y bwriedir i fwyd gael ei fwyta gan bobl);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(**7**), gyda'r addasiadau bod is-adrannau (2) i (4) yn gymwys o ran tramgwydd o dan reoliad 3(1) fel y maent yn gymwys o ran tramgwydd o dan adran 14 neu 15 ac y bernir bod y cyfeiriadau yn is-adran (4)(b) at “sale or intended sale” yn cynnwys cyfeiriadau at “labelling, advertising or presentation”;

(ch) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(d) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(dd) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at “any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above” yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan baragraff (d);

(e) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau)(**8**), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (d);

(f) adran 35(2) a (3)(**9**), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (dd);

(ff) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(g) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd)(**10**); ac

(ng) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Hydref 2010

(**7**) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.

(**8**) Diwygir adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p. 44), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w benodi.

(**9**) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.

(**10**) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), Atodlen 5, paragraff 16.

## YR ATODLEN

Rheoliadau 2(1) a 3(1)

Darpariaethau Penodedig Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 41/2009

| *Y Ddarpariaeth yn Rheoliad y Comisiwn* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 3(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5) | Gofyniad bod rhaid i ddeunyddiau bwyd i bobl ag anoddefiad at glwten—<br>(a) a gyfansoddir o neu sy'n cynnwys un neu fwy o gynhwysion sydd wedi'u gwneud o wenith, rhyg, haidd, ceirch neu o'u hamrywiaethau trawsfridiol a broseswyd yn arbennig er mwyn lleihau glwten; neu<br>(b) sy'n cynnwys cynhwysion sy'n disodli gwenith, rhyg, haidd, ceirch neu eu hamrywiaethau trawsfridiol a hefyd gynhwysion sydd wedi'u gwneud o wenith, rhyg, haidd, ceirch neu o'u hamrywiaethau trawsfridiol a broseswyd yn arbennig er mwyn lleihau glwten,<br>beidio bod â lefel glwten sy'n uwch na 100 mg/kg yn y bwyd fel y'i gwerthir i'r defnyddiwr terfynol. |
| Erthygl 3(2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5) | Gofyniad bod rhaid i labelu, hysbysebu a chyflwyno deunyddiau bwyd i bobl ag anoddefiad at glwten—<br>(a) a gyfansoddir o neu sy'n cynnwys un neu fwy o gynhwysion sydd wedi'u gwneud o wenith, rhyg, haidd, ceirch neu o'u hamrywiaethau trawsfridiol a broseswyd yn arbennig er mwyn lleihau glwten; neu<br>(b) sy'n cynnwys cynhwysion sy'n disodli gwenith, rhyg, haidd, ceirch neu eu hamrywiaethau trawsfridiol a hefyd gynhwysion sydd wedi'u gwneud o wenith, rhyg, haidd, ceirch neu o'u hamrywiaethau trawsfridiol a broseswyd yn arbennig er mwyn lleihau glwten,<br>fod yn dwyn y term "very low gluten", er y dichon labelu, hysbysebu a chyflwyno'r deunyddiau bwyd hynny fodd bynnag ddwyn y term "gluten-free" cyhyd ag nad yw'r cynnwys glwten yn uwch na 20 mg/kg yn y bwyd fel y'i gwerthir i'r defnyddiwr terfynol. |
| Erthygl 3(3), fel y'i darllenir gydag Erthygl 3(5) | — Gofyniad bod rhaid i geirch a gynhwysir mewn deunyddiau bwyd i bobl ag anoddefiad at glwten (gan gynnwys deunyddiau bwyd i bobl ag anoddefiad at glwten sy'n cynnwys cynhwysion sy'n disodli gwenith, rhyg, haidd, ceirch neu eu hamrywiaethau trawsfridiol a hefyd gynhwysion sydd wedi'u gwneud |

| *Y Ddarpariaeth yn Rheoliad y Comisiwn* | *Y pwnc* |
|---|---|
| | o wenith, rhyg, haidd, ceirch neu o'u hamrywiaethau trawsfridiol a broseswyd yn arbennig er mwyn lleihau glwten) fod wedi cael eu cynhyrchu, eu paratoi a/neu eu prosesu'n arbennig mewn ffordd sy'n osgoi bod gwenith, rhyg, haidd neu eu hamrywiaethau trawsfridiol yn eu llygru.<br>— Gofyniad bod rhaid i gynnwys glwten ceirch o'r fath beidio â bod yn uwch na 20 mg/kg. |
| Erthygl 3(4) | — Gofyniad bod rhaid i ddeunyddiau bwyd i bobl ag anoddefiad at glwten a gyfansoddir o neu sy'n cynnwys un neu fwy o gynhwysion sy'n disodli gwenith, rhyg, haidd, ceirch neu eu hamrywiaethau trawsfridiol beidio bod â lefel glwten uwch na 20 mg/kg yn y bwyd fel y'i gwerthir i'r defnyddiwr terfynol.<br>— Gofyniad bod rhaid i labelu, cyflwyno a hysbysebu'r cynhyrchion hynny ddwyn y term "gluten-free". |
| Erthygl 3(6) | Gofyniad bod rhaid i'r termau "very low gluten" a "gluten-free" y cyfeirir atynt yn Erthygl 3(2) a (4) ymddangos wrth ymyl yr enw y gwerthir y deunydd bwyd perthnasol i bobl ag anoddefiad at glwten oddi tano. |
| Erthygl 4 a | Gwaharddiad ar labelu, hysbysebu a chyflwyno—<br>(a) deunyddiau bwyd i'w bwyta'n arferol; neu<br>(b) deunyddiau bwyd at ddibenion maethol penodol sydd wedi cael eu fformiwleiddio, eu prosesu neu eu paratoi'n arbennig i gyfarfod anghenion dietegol arbennig heblaw rhai'r bobl hynny sydd ag anoddefiad tuag at glwten ond sydd fodd bynnag yn addas, yn rhinwedd eu cyfansoddiad, i gyfarfod anghenion dietegol arbennig pobl sydd ag anoddefiad tuag at glwten,<br>sy'n dwyn y term "very low gluten", er y dichon labelu, hysbysebu chyflwyno'r deunyddiau bwyd hynny fodd bynnag ddwyn y term "gluten-free" cyhyd ag nad yw'r cynnwys glwten yn uwch na 20 mg/kg yn y bwyd fel y'i gwerthir i'r defnyddiwr terfynol. |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi yno Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 41/2009 sy'n ymwneud â chyfansoddiad a labelu deunyddiau bwyd sy'n addas i bobl ag anoddefiad tuag at glwten (OJ Rhif L16, 21.1.2009, t.3) ("Rheoliad y Comisiwn") fel y'i darllenir gydag Erthygl 10(2) o Gyfarwyddeb 2009/39/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunyddiau bwyd y bwriedir eu defnyddio at ddibenion maethol penodol (OJ Rhif L124, 20.5.2009, t.21).

**2.** Mae Rheoliad y Comisiwn yn gosod gofynion ar gyfer cyfansoddiad a labelu deunyddiau bwyd i bobl ag anoddefiad tuag at glwten a deunyddiau bwyd eraill sy'n addas i bobl ag anoddefiad tuag at glwten, yn benodol parthed defnyddio'r termau "very low gluten" a "gluten-free".

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn darparu bod person sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig yn Rheoliad y Comisiwn yn euog o dramgwydd (*rheoliad 3(1)*);

(b) yn darparu cosbau am dramgwyddau (*rheoliad 3(2)*);

(c) yn pennu'r awdurdod gorfodi (*rheoliad 3(3)*);

(ch) yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn gymwys parthed deunyddiau bwyd i bobl ag anoddefiad tuag at glwten a osodir ar y farchnad fanwerthu p'un ai a fyddant wedi'u pecynnu'n barod fel y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 10(2) o Gyfarwyddeb 2009/39/EC (*rheoliad 4*) ai peidio; a

(d) yn darparu ar gyfer cymhwyso, gydag addasiadau, ddarpariaethau penodedig yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16) at ddibenion y Rheoliadau hyn *(rheoliad 5*).

**4.** Paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol parthed costau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd, CF10 1EW.